Simon Smith
Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Llanelwy

29 Tachwedd 2010

Annwyl Simon

**Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

Mae'r Mesur Llywodraeth Leol 2009 wedi darparu'r cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ailfeddwl sut mae'n adrodd ei ganfyddiadau o'r gwaith archwilio cyllid a pherfformiad a wneir i'r cyrff llywodraeth leol. Byddwch yn ymwybodol y bydd yr Archwiliwr Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol dros y misoedd nesaf. Bydd llawer o'r materion a drafodwyd yn y Llythyr Archwilio Blynyddol yn y gorffennol nawr yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Felly, rwyf wedi manteisio ar y cyfle i grynhoi'r prif negeseuon a godir o gyfrifoldebau statudol yr Archwiliwr (y cyfrifon, casgliad gwerth am arian ac archwiliad y cynllun gwella) yn y llythyr byr hwn sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Mae'r llythyr wedi'i gynllunio i fod yn ddogfen arunig, ond fe'i cyflwynir i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly'n cyflawni fy nyletswyddau yn unol â'r Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru gyda'r gofynion adrodd ar welliant cyllid a pherfformiad ond mae'n wynebu pwysedd cyllid sylweddol yn y dyfodol agos**

1 Mae'n gyfrifoldeb ar yr Awdurdod i:

- osod systemau rheoli mewnol er mwyn sicrhau fod trafodion yn gyfreithlon ac yn cael eu rheoleiddio ac i sicrhau fod eu hasedau yn ddiogel;
- gynnal a chadw cofnodion cyfrifo priodol;
- baratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion priodol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau addas i ddiogelu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd defnyddir ei adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

2 Yn unol â'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan yr Archwilio Cyffredinol (Y Cod) mae'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio am y datganiadau cyfrifeg;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i ddiogelu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd defnyddir ei adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol; a
- darparu tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

3 Ar 29 Medi 2010, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifeg, yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno golwg teg a chywir o drafodion cyfrifon yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

4 Nodwyd y meysydd canlynol yn ystod yr archwiliad cyfrifon:

- mae'r prosesau paratoi datganiadau cyfrifon wedi parhau i wella, ac o ganlyniad ceir datganiadau drafft o ansawdd da, wedi'u hategu gan bapurau gweithio cynhwysfawr;
- cynnydd da wedi'i wneud hyd yn hyn ar gyfer paratoi a gweithredu'r System Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn 2010-11 a dylai'r Awdurdod anelu at gynhyrchu set ddrafft o gyfrifon IFRS gan gynnwys cymariaethau cyn gynted ag y bo modd; a
- paratowyd y Cyfrifon Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

5 Mae fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i ddiogelu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi ei seilio ar waith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal ag ymddiried

yn y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Bydd y prif ganfyddiadau o'r gwaith hwn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ychwanegol at hyn, dof a'r mater canlynol i'ch sylw:

- mae trefniadau rheoli cyllidebau effeithiol eisoes ar waith a chynllunio ariannol canoldymor wrthi'n cael ei ddatblygu, ond mae'r Awdurdod yn wynebu pwysedd ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

6 Mae Cynllun Gwella 2010-11 yr Awdurdod yn cwrdd â'r holl ofynion statudol gydag eithriad, er bod y Cynllun Gwella wedi'i gwblhau erbyn 31 Hydref 2010, ni chyhoeddwyd y ddogfen tan 1 Tachwedd 2010. Mae'r adroddiad yn darparu golwg cytbwys o'r perfformiad yn 2009-2010.

7 Darperais dystysgrif yn cadarnhau fod archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2010.

8 Roedd y ffi ar gyfer archwiliad ariannol yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Strategaeth Archwiliad Ariannol.

Yn gywir

Virginia Stevens
KPMG LLP

*cc Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân*